# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2025**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**



© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.



© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1 - HAEN UWCH

## GAEAF 2025 CYNLLUNIAU MARCIO

### Walkers' Wood / Mewn cartre hen bobl

### Walkers' Wood: prif bwyntiau cynnwys

- Tad a mab sydd yma yn mynd am dro yng Nghoed Llugwy ger Betws y Coed yn nhymor yr hydref.

- Mae'r mab yn ifanc ac yn chwilfrydig iawn a thrwy'r gerdd ceir cyfres o gwestiynau ganddo ac yna daw atebion amyneddgar y tad.

- Trwy hyn, daw sylwadau cynnil a beirniadol y bardd am y ffaith fod yr ymwelwyr wedi newid enw gwreiddiol y goedwig, Coed Llugwy, a'i galw'n Walkers' Wood, sef teitl crafog y gerdd.

- Mae'r penillion yn llawn cyfeiriadau at liwiau a chyfoeth y goedwig a sylwn ar wybodaeth eang y tad am y mathau o goed sydd yno, a'i awydd i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'w fab ifanc, eiddgar. Gwna hynny drwy gyfres o drosiadau a chyffelybiaethau dyfeisgar sy'n esbonio siâp a lliwiau'r dail.

- Daw pinacl y gerdd yn y pennill olaf pan hola'r bachgen am y gwrthrych lliwgar a wêl yng nghanol y mwd a daw ateb y tad mai darn o sbwriel ydyw wedi ei adael ar ôl gan yr ymwelwyr dihid. Dysgwn fan hyn fod difrod yn digwydd i'r fro mewn mwy nag un ffordd felly – o safbwynt colli'r enwau cynhenid a cholli purdeb yr amgylchedd naturiol hefyd.

### Mewn Cartre Hen Bobl: prif bwyntiau cynnwys

- Cartref henoed yw lleoliad y gerdd a chyflwynir delwedd o'r preswylwyr fel coed unigol sy'n ffurfio coedwig gyfan i boblogi'r cartref. Cynhelir y brif ddelwedd hon drwy gydol y gerdd.

- Disgrifir symudiadau araf a phoenus y preswylwyr o amgylch yr adeilad, a diffyg hyblygrwydd eu cyrff gydag ansoddeiriau fel 'prennaidd'.

- Sonnir fod teulu a pherthnasau a ffrindiau fel pe baent wedi diflannu o fywydau'r preswylwyr ac mae eu bodolaeth yno yn gwbl foel a llwm, fel coed y gaeaf wedi colli eu dail.

- Oedir am ychydig i ystyried gorffennol y bobl hyn a cheisio dychmygu sut fywyd fu ganddynt, sut oedd eu hymddangosiad ifanc amser maith yn ôl, ond dychwelir wedyn at eu stad bresennol o 'sychder' a gwacter.

- Ceir manylion am siapiau onglog a phoenus rhannau o gyrff y preswylwyr megis penelin a phenglin, a manylu wedyn ar siap yr wyneb a'r bochau yn benodol.

- I gloi'r gerdd, cawn y teimlad fod mwy a mwy o breswylwyr yn cyrraedd y cartref nes ei fod yn teimlo fel coedwig gyfan o bobl ac mae teimlad o anobaith yma gan i'r gerdd gloi drwy ailadrodd yr un gosodiad moel "coed cam" fel pe bai'n methu gweld heibio'r syniad cychwynnol hwnnw ohonynt.


© WJEC CBAC Cyf.

**Pwyntiau Cymharu**

- Mae lleoliadau gwahanol i'r ddwy gerdd. Y naill mewn coedwig ar lan afon yn yr hydref, a'r llall mewn cartref henoed lle mae'r bardd yn cymharu'r preswylwyr i 'goed cam'.

- Ond eto, mae teitlau'r ddwy gerdd yn enwi lleoliadau penodol.

- Ceir cyfeiriad at dair cenhedlaeth yn Walkers' Wood sef y tad, y taid a'r bachgen. Mae cynhesrwydd yn y berthynas rhwng y tad a'r mab a theimlad cryf o olyniaeth ac etifeddiaeth yma. Mae preswylwyr y cartref yn unig a chyfeirir at yr 'adar' sydd wedi hedfan ymaith erbyn hyn.

- Yn y ddwy gerdd ceir cyfeiriadau manwl at fathau o goed a'u nodweddion penodol, ond at ddibenion gwahanol.

- Mae Walkers' Wood yn creu teimlad bodlon a gobeithiol hyd at yr ergyd yn y pennill olaf pan ddaw neges y gerdd a'r teimlad o siom oherwydd diffyg parch llwyr yr ymwelwyr tuag at y lleoliad hwn. Yn wahanol i hynny, mae Mewn cartre hen bobl yn fwy digalon drwyddi draw ac mae'r ymdeimlad o golled a diffyg gobaith yn drwm ynddi.

- Sgwrs a geir yn Walkers' Wood rhwng dau gymeriad penodol sef y tad a'r mab ac mae anwyldeb yn y siarad trwy eiriau anwes megis "was". Ar y llaw arall, cerdd ddisgrifiadol, amhersonol yw Mewn cartref hen bobl a does dim cyfeiriad at unigolion mwy na "hwn" a "hon", ac awgrym efallai o bersonoliaethau gwahanol drwy gyfeirio at y gwahanol fathau o goed sydd yno "celyn a derw a drain".

- Negeseuon cwbl gyferbyniol sydd gan y beirdd. Y naill yn pryderu am effaith twristiaeth ar ein hamgylchedd ac ar yr iaith Gymraeg yn benodol, a'r llall yn mynegi diffyg gobaith ar ddiwedd oes a hiraeth am ieuenctid a fu.

- Mae'r mesurau'n amrywio hefyd – mydr ac odl, a mesur penrhydd. Er bod cyffyrddiadau cynganeddol i'w gweld yn y gerdd benrydd.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull: Walkers' Wood: rhai pwyntiau**

- Tafodiaith – "was"
- Saesneg – Walkers' Crisps / Betws Guide
- Deialog – holi ac ateb y tad a'r mab
- Trosiad – "popty'r hydref"
- Cyffelybiaeth – "run fath a crisps"
- Mesur – mydr ac odl. Odlau Cymraeg a Saesneg.

**Arddull: Mewn cartre hen bobl: rhai pwyntiau**

- Ailadrodd – "coed cam"
- Cyflythrennu – "o gwpwrdd i gadair", "colfennau celyd"
- Cwestiynau rhethregol – "A fu hwn yn dalgryf?"
- Cynghanedd sain – "Wedi lleithder sychder sydd"
- Ansoddeiriau – "crin", "crwm", "celyd"
- Mesur – penrhydd.

**Neges:**

**Walkers' Wood:** Cerdd am berthynas rhwng tad a mab a phryder am y dyfodol mewn ardal dlos o Gymru sy'n denu ymwelwyr lu, a'r ymwelwyr rheiny weithiau ym amharchu'r amgylchedd a'r enwau Cymraeg sydd yno.

**Mewn cartre hen bobl:** Cerdd ddisgrifiadol sy'n mynegi teimladau digalon y bardd am griw o bobl sydd fel pe baent wedi eu gadael mewn cartref henoed yn ystod gaeaf eu bywyd, a dim ar ôl ond hiraeth am y gorffennol. Mae'n gerdd a allai fod yn pigo cydwybod y genhedlaeth iau am fod yn ddihid o'r to hŷn a'u gadael yma'n unig.


© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.